

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU'R AMGYLCHEDD A'R ECONOMI
8 MEHEFIN 2021

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi
Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn rhithiol ddydd Mawrth, 8 Mehefin 2021.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Rosetta Dolphin (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr: Sean Bibby, David Evans, George Hardcastle, Patrick Heesom,
Andy Hughes, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Vicky Perfect a Paul Shotton

DIRPRWY: Y Cynghorydd: Ron Davies (ar gyfer Cindy Hinds)

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorydd Owen Thomas

HEFYD YN BRESENNOL: Roedd y canlynol yn bresennol fel arsyllwyr:

Y Cyngorwyr: Haydn Bateman, Rob Davies a Christine Jones (Dirprwy
Arweinydd Partneriaethau ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol)

CYFRANWYR:

Y Cynghorydd Ian Roberts - Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg, Y
Cynghorydd Chris Bithell (Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd), Y
Cynghorydd Glyn Banks (Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd), Prif Weithredwr,
Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog
(Gwasanaethau Stryd a Chludiant), Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio a'r Pen
Gyfrifydd.

Ar gyfer cofnod rhif 8

Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol a'r Swyddog Bioamrywiaeth

Ar gyfer cofnod rhif 9

Ymgynghorydd Polisi Strategol a'r Rheolwr Budd-Daliadau

HEFYD YN BRESENNOL: Hwyluswyr Trosolwg a Chraffu a Swyddog
Gwasanaethau Democrataidd.

1. PENODI CADEIRYDD

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor Sir y dylai Cadeirydd y
Pwyllgor ddod o'r Grŵp Cynghrair Annibynnol. Cafodd y Pwyllgor wybod fod y
Cynghorydd Rosetta Dolphin wedi cael ei phenodi i'r rôl ar gyfer blwyddyn y
cyngor.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Andy Hughes i'w gyfarfod cyntaf
o'r Pwyllgor, ac estynnwyd llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Glyn Banks a Katie
Wilby ar eu penodiadau newydd.

PENDERFYNWYD:

Nodi penodiad y Cynghorydd Rosetta Dolphin fel Cadeirydd y Pwyllgor.

2. **PENODI IS-GADEIRYDD**

Enwebodd y Cynghorydd Sean Bibby y Cynghorydd David Evans yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Joe Johnson. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill. O'i roi i bleidlais, cymeradwywyd hyn.

PENDERFYNWYD:

Penodi'r Cynghorydd David Evans yn Is-gadeirydd y Pwyllgor.

3. **DATGAN CYSYLLTIAD**

Dim.

4. **COFNODION**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 9 Mawrth 2021, fel y cawsant eu cynnig a'u heilio gan y Cyngorwyr George Hardcastle a Paul Shotton.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

5. **RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU**

Cyflwynodd yr Hwylusydd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyfredol a byddai'n cysylltu â'r Cadeirydd a'r Prif Swyddogion ar eitemau a drefnwyd ar gyfer mis Gorffennaf er mwyn darparu ar gyfer Adroddiad Blynyddol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Tynnwyd sylw aelodau at y sesiwn frifio ar ailgylchu a gynhelir yn ddiweddarach ar yr un dyddiad.

Dywedodd y Prif Weithredwr yn ogystal ag Aelodau'n cyflwyno eitemau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol, y byddai'r Pwyllgor Adferiad newydd yn cynorthwyo Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu trwy nodi pynciau a meysydd risg i'w hystyried, i helpu gyda'r cam adfer.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhellion gan y Cyngorwyr David Evans a Joe Johnson.

PENDERFYNWYD:

- (a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol; ac
- (b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a
- (c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

6. **SBWRIEL A THIPIO ANGHYFREITHLON**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) adroddiad ar effaith digwyddiadau taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon yn ystod y sefyllfa argyfwng, yn unol â chais y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys y safonau perfformiad a'r ymatebion gorfodaeth y cytunwyd arnynt.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio at effaith y sefyllfa argyfwng ar faint o wastraff a gesglir o lanhau strydoedd yn rheolaidd ac adroddiadau am sbwriel wedi'i daflu. Er y gallai'r Cyngor ymchwilio i dipio anghyfreithlon, nid oedd yn gallu symud gwastraff o dir preifat. Rhannwyd gwybodaeth hefyd am orfodaeth a'r ffocws ar addysgu aelodau o'r cyhoedd. Er bod llai o Hysbysiadau Cosb Benodedig wedi'u cyhoeddi oherwydd y sefyllfa argyfwng, parhaodd gwaith gorfodaeth rhagweithiol gyda nifer o achosion tipio anghyfreithlon yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd ac mae nifer o fentrau ar y gweill gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth.

Darparodd y Prif Swyddog wybodaeth am fenter Caru Cymru ledled Cymru i annog gweithredu cymunedol ar y cyd i leihau gwastraff amgylcheddol. Roedd tipio anghyfreithlon yn broblem eang gyda dadansoddiad ymchwil yn awgrymu cynnydd o tua 300% ledled y DU ac roedd hyn oherwydd ystod o ffactorau.

Awgrymodd y Cadeirydd y gallai stondin farchnad ddwywaith y flwyddyn helpu i godi ymwybyddiaeth o weithgareddau'r tîm.

Gofynnodd y Cyngorydd Paul Shotton am ddarparu biniau sbwriel cyhoeddus ychwanegol a chafodd wybod bod safleoedd yn cael eu hasesu yn erbyn meini prawf a bod Aelodau'n gallu cysylltu â'u cydlynwyr ardal gyda lleoliadau a awgrymir. Byddai'r heriau wrth fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon ar dir preifat yn cael eu codi yn y cyfarfod gorfodaeth cyffredinol Cymru nesaf i sefydlu a oedd unrhyw gefnogaeth ar gael gan Lywodraeth Cymru. Byddai ymateb ar wahân yn cael ei ddarparu i'r Cyngorydd Shotton ar ddarpariaeth barcio y tu allan i Barc Gwepre.

Fel yr awgrymwyd gan y Prif Weithredwr, cytunodd swyddogion i gylchredeg y meini prawf lleoli biniau gwastraff i Aelodau a Chlercod y Cyngor Tref / Cymuned ac ystyried cynllun ymlaen llaw o geisiadau cymeradwy am finiau gyda therfynau amser ar gyfer ceisiadau sy'n dod i mewn i helpu i reoli archebion.

Gwnaeth y Cyngorydd David Evans sylwadau ar y data a gynhyrchwyd gan ddigwyddiadau yr adroddwyd amdanynt yn cael eu cofnodi ar y system, y cadarnhaodd swyddogion eu bod yn cynnwys y rhai o grwpiau casglu sbwriel. Byddai camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod achosion a gyfeiriwyd yn uniongyrchol at gydlynwyr ardal gan Aelodau etholedig hefyd yn cael eu cynnwys. Ymatebodd y Prif Swyddog i sylwadau ar gasglu trolïau archfarchnadoedd trwy dimau glanhau a dywedodd y gallai'r tîm ystyried ffyrdd o ymgysylltu ag archfarchnadoedd i leihau achosion o'r fath.

Gofynnodd y Cyngorydd Evans am y potensial i'r Cyngor gael pwerau i orfodi yn erbyn taflu sbwriel gan bobl sy'n yfed alcohol mewn manau cyhoeddus a oedd yn broblem gynyddol mewn rhai ardaloedd. Dywedodd y Prif Weithredwr

y gellid archwilio opsiynau, gan nodi y byddai angen ceisio cyngor cyfreithiol ynghylch a ellid ymestyn y pwerau hyn gyda'r Heddlu ar hyn o bryd i Gynghorau. Cynigiodd y Cynghorydd Evans hyn fel argymhelliad ychwanegol ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Sean Bibby.

Yn dilyn pryderon a godwyd gan y Cynghorydd George Hardcastle ynghylch gwagio gyliau, darparodd swyddogion wybodaeth am drefniadau darparwyr fflyd a'r timau sy'n gyfrifol am gasglu gwastraff a gorfodaeth. Cytunodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) i rannu manylion y costau yr eir iddynt wrth ddelio â chŵn crwydr.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Andy Hughes, rhoddwyd esboniad ar ymgysylltu ag aelodau'r cyhoedd a disgyblion ysgol i ddylanwadu ar ymddygiad, a'r rhesymau dros newidiadau yn nifer yr Hysbysiadau Cosb Benodedig a roddwyd ers 2018-19.

Cododd y Cynghorydd Dennis Hutchinson bryderon ynghylch effaith gyliau a gridiau sydd wedi'u blocio mewn ardaloedd sy'n dueddol o ddiodeff llifogydd. Dywedodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) bod amlder gwagio gyliau o fewn y safonau y cytunwyd arnynt yn cael ei adolygu'n rheolaidd a bod ardaloedd â phroblemau yn cael eu harchwilio'n fwy rheolaidd. Byddai'n cysylltu â'r Cynghorydd Hutchinson y tu allan i'r cyfarfod ynghylch materion ei ward.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod gallu swyddogion i ddelio â manau problemus o ran llifogydd yn cael ei adolygu ac y byddai unrhyw adnoddau ychwanegol a ddyrennir yn arwain at bwysau cyllidebol pellach i'r Cyngor.

Wrth ganmol y timau Gwasanaethau Stryd am eu gwaith, cefnogodd y Cynghorydd Joe Johnson yr awgrym am stondin farchnad a dywedodd y byddai biniau gwastraff ychwanegol ar hyd llwybr yr arfordir yn ddefnyddiol.

Siaradodd y Cynghorydd Ian Roberts o blaid ymgyrchoedd addysg gyhoeddus i dynnu sylw at gyfrifoldeb cymdeithasol a diolchodd i'r llu o weithgareddau casglu sbwriel sy'n digwydd ledled y Sir.

Diolchodd y Cynghorydd Glyn Banks i swyddogion am yr adroddiad a'r ymgyrch addysg, gan awgrymu y gellid ystyried cynnydd mewn dirwyon yn y dyfodol. Gofynnodd i'r Aelodau gyfeirio unrhyw faterion penodol yn uniongyrchol at y goruchwylwyr ardal.

Cafodd yr argymhellion, fel y'u diwygiwyd, eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr David Evans a Sean Bibby.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi camau gweithredu'r Gwasanaethau Stryd wrth ddelio â digwyddiadau taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon; a
- (b) Bod swyddogion yn archwilio i a ellid rhoi pwerau i'r Cyngor ar gyfer camau gorfodaeth o ran sbwriel a achosir gan yfed alcohol mewn manau cyhoeddus.

7. ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD DIWEDD BLWYDDYN

Cyflwynodd y Prif Swyddogion yr adroddiad monitro diwedd blwyddyn i adolygu cynnydd ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn eu priod flaenoriaethau a nodir ym Mesurau Adrodd y Cyngor 2020/21 o dan gylch gwaith y Pwyllgor. Adroddwyd bod 67% o'r dangosyddion perfformiad wedi diwallu neu ragori ar eu targedau.

O fewn y Gwasanaethau Stryd a Chludiant, roedd dau ddangosydd â statws coch ar gyfer perfformiad cyfredol yn erbyn y targed. O ran datblygiad parhaus y Bartneriaeth Bysiau o Safon, byddai canlyniadau adolygiad rhwydwaith gan Drafnidiaeth Cymru yn cael eu rhannu gyda'r Pwyllgor pan fyddant ar gael. O ran atgyweiriadau gan gontractwyr cyfleustodau, er gwaethaf gostyngiad mewn arolygiadau ar ôl cwblhau yn ystod y cyfnod, roedd y nifer a gynhaliwyd yn uwch na'r gofyniad statudol.

Ar gyfer Cynllunio, yr Economi a'r Amgylchedd, roedd effaith y sefyllfa argyfwng ar berfformiad yn amlwg, ond roedd rhai canlyniadau ychydig yn is na'r targed. Roedd nifer y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd arnynt yn gwella wrth i gynnydd da gael ei wneud ar yr ôl-gronid o waith a oedd wedi datblygu ar ddechrau'r sefyllfa argyfwng.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad gan y Cynghorwyr Paul Shotton a Joe Johnson.

PENDERFYNWYD:

Bod yr Adroddiad Monitro Perfformiad Diwedd Blwyddyn yn cael ei nodi.

8. DIWEDDARIAD AR Y DDYLETSWYDD BIOAMRYWIAETH

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio, Economi a'r Amgylchedd) adroddiad diweddar ar gynnydd wrth gyflawni bioamrywiaeth a gwytnwch dyletswydd ecosystemau o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Roedd ail gynllun dyletswydd bioamrywiaeth y Cyngor o'r enw 'Cefnogi Natur yn Sir y Fflint' yn manylu ar y gwaith da manwl sy'n mynd rhagddo wrth gyflawni'r amcanion hyn yn ystod y cyfnod 2020-2023.

Dywedodd y Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol fod 85% o'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd i gyflawni'r chwe amcan naill ai wedi'u cwblhau neu ar y targed. Siaradodd am effaith y sefyllfa argyfwng ar wahanol ffrydiau gwaith a oedd yn gofyn am newid yn y ffordd o weithio.

Cyflwynwyd y Pwyllgor i Sarah Slater, y Swyddog Bioamrywiaeth, a rannodd sleidiau cyflwyniad yn ymwneud â:

- Buddsoddi mewn peiriannau torri a chasglu
- Rheoli a chlirio chwyn heb ddefnyddio cemegau
- Ymgyrch blodau gwyllt

Cydnabu'r Swyddog Bioamrywiaeth awgrym y Cadeirydd ar lwybr yr arfordir fel lleoliad ar gyfer yr ymgyrch blodau gwyllt a dywedodd fod safleoedd yn

cael eu hasesu yn erbyn meini prawf amrywiol. Croesawodd awgrymiadau pellach gan yr Aelodau trwy e-bost.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Glyn Banks, darparodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Economi a'r Amgylchedd) wybodaeth am brosiectau storio carbon gan gynnwys penodi Alex Ellis i archwilio opsiynau gydag asedau sy'n eiddo i'r Cyngor. Siaradodd y Swyddog Bioamrywiaeth am fuddsoddi yn system rheoli chwyn heb gemegion Foamstream a oedd hefyd yn cael ei ddefnyddio gan wasanaethau eraill ar draws y Cyngor.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad gan y Cynghorwyr Paul Shotton a Joe Johnson.

PENDERFYNWYD:

Cefnogi'r cynnydd gyda'r strategaeth bioamrywiaeth.

9. CYCHWYN Y DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Polisi Strategol adroddiad ar baratoadau'r Cyngor ar gyfer cychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Roedd hwn yn ofyniad statudol i gyrff cyhoeddus perthnasol roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Roedd yr adroddiad yn cael ei rannu gyda'r holl Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu i godi ymwybyddiaeth o'r rhwymedigaethau newydd.

Rhoddodd yr Ymgynghorydd Polisi Strategol a'r Rheolwr Budd-daliadau gyflwyniad ar y cyd yn ymwneud â'r canlynol:

- Beth yw'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol a beth mae'n ei wneud?
- Termau allweddol
- Anghydraddoldebau canlyniadau
- Enghreifftiau o dlodi
- Dangos sylw dyledus - trywydd archwilio
- Cyflawni'r ddyletswydd - yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Gwell canlyniadau
- Astudiaeth achos

Nod cyffredinol y ddyletswydd oedd sicrhau gwell canlyniadau i bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol trwy wrando ar yr unigolion hynny a dangos sylw dyladwy. Roedd y ddeddfwriaeth yn gysylltiedig â gwahanol ffrydiau gwaith i fynd i'r afael â thlodi a nodwyd fel un o'r blaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor. Byddai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn arwain ar thema dlodi gyfan Cynllun y Cyngor ac yn derbyn adroddiadau rheolaidd.

Croesawodd y Cynghorydd Vicky Perfect y mentrau i fynd i'r afael â thlodi bwyd, yn enwedig y rhai sy'n helpu disgyblion yn ystod gwyliau ysgol.

Mewn ymateb i gwestiwn oddi wrth y Cynghorydd Paul Shotton, darparodd y Rheolwr Budd-daliadau wybodaeth am gymorth ariannol Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi bwyd a menter ar y cyd rhwng y Cyngor a chwmni Arlwygo a

Glanhau NEWydd Cyf ar gynllun atgyfeirio i ddarparu cefnogaeth i deuluoedd mewn angen.

Croesawodd y Cynghorydd Patrick Heesom y gwaith sy'n cael ei wneud i reoli newidiadau cymdeithasol mewn cymdeithas.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhellion gan y Cynghorwyr Joe Johnson a David Evans.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi gofynion y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol; a
- (b) Bod y Pwyllgor yn sicr o barodrwydd y Cyngor i gyflawni'r ddyletswydd newydd.

10. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am, a gorffennodd am 12.10am)

.....
Y Cadeirydd